

AMODAU DIWYGIEDIG Y GORCHWYL

1 DIFFINIAD

- 1.1 Enw cyflawn y pwyllgor hwn fydd 'Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru'. ETS Cymru fydd y byrfodd er hwylustod.
- 1.2 Bydd Cangen Gwaith Ieuentid Llywodraeth Cymru yn rhoi arian a chymorth arall i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) i ddibenion gwaith ETS Cymru. Fe fydd ETS Cymru yn helpu sectorau gwaith chwarae a datblygu cymunedol i chwilio am ffynonellau arian priodol yn eu meysydd eu hunain.

2 DIBEN

- 2.1 Mae diben ETS Cymru wedi'i ddisgrifio ym memorandum y ddealltwriaeth rhwng WLGA a'r Cydbwyllgor Negodi dros Weithwyr Ieuentid a Chymuned. Bydd yn gyfrifol am gymeradwyo ac achredu gwaith ieuentid a diogelu ei ansawdd yn y sectorau gwirfoddol, annibynnol a gwladol (awdurdodau lleol) trwy annog cyrff priodol i ofyn i'w harferion gael eu hadolygu a'u cydnabod yn ôl gofynion y Cydbwyllgor Negodi. At hynny, mae ETS Cymru yn parhau i roi cymorth i sectorau gwaith chwarae a datblygu cymunedol y wlad yn ôl y telerau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru yn 2006.

3 SWYDDOGAETHAU

- 3.1 Mae'r swyddogaethau isod yn ymwneud â gwaith ieuentid ond, yn unol â'r diben sydd wedi'i ddisgrifio uchod, bydd ETS Cymru yn parhau i gynorthwyo sectorau gwaith chwarae a datblygu cymunedol i gyflawni swyddogaethau tebyg yn y meysydd hynny ar yr amod bod adnoddau ar gael.
- 3.2 Cymeradwyo ansawdd proffesiynol:
 - cyrsiau a rhaglenni hyfforddi sylfaenol sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol;
 - cyrsiau a rhaglenni hyfforddi ar ôl ymgymhwyso;
 - cynlluniau achredu a dilysu hyfforddiant ymgymhwyso amser llawn a rhan-amser yn y sectorau gwirfoddol, annibynnol a gwladol.
- 3.3 Cymorth a chynghorion ynglŷn â llunio:
 - strategaethau datblygu gweithluoedd a fframweithiau datblygu proffesiynol parhaus cyrff annibynnol, mudiadau gwirfoddol ac awdurdodau lleol;
 - polisiau a gweithdrefnau diogelu ansawdd cyrff annibynnol, mudiadau gwirfoddol ac awdurdodau lleol;

- datganiadau am gwrícwllwm, gwerthoedd a safonau proffesiynol y sector;
 - cyrsiau cymwysterau goruchwyllo i athrawon gwaith maes.
- 3.4 Paratoi, lledaenu ac adolygu meini prawf, canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo ac achredu.
- 3.5 Sefydlu a defnyddio gweithgorau i archwilio ac asesu cynigion ac arferion asiantaethau sy'n gofyn am gymeradwyo neu achredu.
- 3.6 Helpu i gyflawni gwaith fel y bydd modd trosglwyddo cymwysterau cyfatebol ledled y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon, yn ogystal â chynghori Llywodraeth Cymru am faterion o'r fath yn ôl yr angen.
- 3.7 Helpu i gyflawni gwaith fel y bydd modd trosglwyddo cymwysterau cyfatebol ledled y byd, yn ogystal â chynghori Llywodraeth Cymru am faterion o'r fath yn ôl yr angen.
- 3.8 Sbarduno datblygiadau (ac ymateb i ddatblygiadau, hefyd) o ran safonau, cydnabyddiaeth a darpariaeth gwaith ieuencid – yn ogystal â chynghori Llywodraeth Cymru, Cyngor Gweithlu Addysg a chyrrff perthnasol eraill yn ôl yr angen.

4 AMODAU PENODI AELODAU

- 4.1 Partneriaid cymeradwy fydd yn enwebu aelodau'r pwyllgor ac yn adolygu'r enwebiadau bob tair blynedd. Ar ôl yr adolygu, bydd modd enwebu aelod ar gyfer cyfnod ychwanegol (tair blynedd) neu ragor. Penodir cadeirydd y pwyllgor trwy weithdrefn ffurfiol. Mae modd cyfethol aelodau ychwanegol gyda chaniatâd y pwyllgor. Dim ond mewn sefyllfa eithriadol y derbynnir eilyddion mewn cyfarfod, a hynny trwy ganiatâd y cadeirydd ymlaen llaw.
- 4.2 Penodir y cadeirydd ar gyfer tair blynedd yn y lle cyntaf. Mae modd penodi cadeirydd ar gyfer tair blynedd eto ar yr amod bod ei bresenoldeb a'i waith yn foddhaol. Ar ôl chwe blynedd, penodir y cadeirydd trwy broses agored y caiff y cadeirydd cyfredol ymgeisio ynddi, hefyd. Adolygir y disgrifiad o rôl y cadeirydd wrth ei benodi.
- 4.3 Bydd ETS Cymru yn cael ethol is-gadeirydd i helpu'r cadeirydd i gyflawni ei ddyletswyddau a llywio cyfarfodydd mewn absenoldeb nad oedd modd ei osgoi.
- 4.4 Telir y cadeirydd am bedwar diwrnod y mis yn ôl cyfradd y cytunir arni gyda Llywodraeth Cymru, yn amodol ar ei chymorth ariannol parhaus.

5 CYFRIFOLDEBAU AELODAU'R PWYLLGOR

- 5.1 I gadw gwrthrychedd proffesiynol, mae'r pwyllgor yn dibynnu ar ymroddiad a gonestrwydd partneriaid, gweithwyr yr asiantaethau hynny ac unigolion sy'n cynnig eu gwasanaethau ar gyfer prosesau ffurfio proffesiynol. Hanfod eu gwaith unigol ac ar y cyd yw hyrwyddo proffesiynoldeb yn y sector, nid gwarchod buddiannau sefydliadol neu blwyfol.
- 5.2 Mae gallu ETS Cymru i gynrychioli buddiannau gwaith ieuenctid a sectorau cysylltiedig wedi'i seilio ar y syniad mai cymorth unigolion a phartneriaid yw ei brif adnodd ariannol.
- 5.3 Gofynnir i bob aelod baratoi datganiad am fuddiannau adeg ei benodi a gofalu bod y datganiad hwnnw'n gyfoes bob amser.
- 5.4 Fe ddisgwylir i aelodau fynychu'r cyfarfodydd. Lle mae aelod wedi bod yn absennol deirgwaith heb esboniad rhesymol, bydd yn gorfod rhoi'r gorau i'w sedd, fel arfer.
- 5.5 Disgwylir i bob aelod gefnogi delfryd a gwerthoedd ETS Cymru, gweithredu yn ôl [Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan](#), gwybod ei bwnc yn drylwyr, cymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu priodol mae ETS Cymru wedi'u cynnig neu eu hargymell a bod yn fodlon adolygu ei waith ei hun a gwaith y pwyllgor i ddibenion cwestiynu adeiladol.
- 5.6 Yr aelodau sy'n gyfrifol am godi materion ar ran y sefydliadau sydd wedi'u henwebu a chyflwyno adroddiadau i'r sefydliadau hynny wedyn.

6 AELODAU

- 6.1 Bydd hyd at 21 aelod gan ETS Cymru (cadeirydd, 17 wedi'u henwebu gan bartneriaid a hyd at dri aelod i'w penodi trwy weithdrefnau dethol priodol) i gynrychioli maes ehangach addysg anffurfiol. Bydd lleoedd i rai gwylwyr perthnasol, hefyd.

AELODAU

Swydd	Nifer	Sylwadau
Cadeirydd	1	I'w benodi trwy weithdrefn agored yn ôl prosesau penodiadau cyhoeddus
Is-gadeirydd*	-	I'w enwebu gan aelodau ETS Cymru
Cynrychiolydd Carfan y Staff	1	I'w enwebu gan Garfan y Staff
Cynrychiolydd Carfan y Cyflogwyr	1	I'w enwebu gan Garfan y Cyflogwyr
Ymgynghorydd Cyflogwyr Sector Gwirfoddol Cymru	1	I'w enwebu gan Gyflogwyr Sector Gwirfoddol Cymru
Ymgynghorydd Cydbwyllgor Negodi	1	I'w enwebu gan WLGA
Cylch Prif Swyddogion Ieuenctid	3	I'w henwebu gan PYOG
Cynrychiolydd Cylch Asiantaethau Hyfforddiant Addysg Uwch Cymru	2	I'w henwebu gan sefydliadau addysg uwch cymeradwy Cymru
Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru	3	I'w henwebu gan y cyngor hwnnw gan gynnwys cadeirydd ei bwylgor hyfforddi
Corff Dyfarnu Addysg Bellach	1	I'w enwebu gan Ffederasiwn Cyrff Dyfarnu Cymru
Canolfan Cyflenwi Addysg Bellach	1	I'w enwebu gan Golegau Cymru
Datblygu cymunedau	1	I'w enwebu gan Ddatblygu Cymunedol Cymru
Chwarae Cymru	2	I'w henwebu gan Chwarae Cymru a Chyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru
Ymarferwyr meysydd ehangach	Hyd at 3	I'w penodi trwy weithdrefn agored gan banel penodiadau ETS Cymru (neu eu cyfethol ganddo)
Cyfanswm yr aelodau	21	

*O blith yr aelodau i gyd

Yn bresennol, hefyd:

Cymorth proffesiynol ac ysgrifenyddol	Yn ôl yr angen	Ymgynghorydd (0.3)
ESTYN (statws gwyliwr)	1	Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi
Cangen Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru (statws gwyliwr)	1	Llywodraeth Cymru
WLGA (statws gwyliwr)	1	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor Gweithlu Addysg Cymru (statws gwyliwr)	1	I'w enwebu gan Gyngor Gweithlu Addysg Cymru
Asiantaeth Genedlaethol yr Ifainc (statws gwyliwr)	1	I'w enwebu gan Asiantaeth Genedlaethol yr Ifainc
ETS Iwerddon (statws gwyliwr)	1	I'w enwebu gan ETS Iwerddon
Yr Alban (statws gwyliwr)	1	I'w enwebu gan Gyngor Safonau Dysgu a Datblygu Cymuned yr Alban

7 CYFARFODYDD

Fel arfer, bydd y pwyllgor cyflawn yn cwrdd o leiaf deirgwaith y flwyddyn.

8 CYMORTH I'R PWYLLGOR

8.1 Penodir swyddog (0.3) i gynorthwyo'r pwyllgor.

9 MATERION ARIANNOL

9.1 Wrth ddefnyddio arian ac adnoddau eraill Llywodraeth Cymru, disgwylir i'r pwyllgor gydymffurfio ag unrhyw ofynion perthnasol ynglŷn â diogelu adnoddau cyhoeddus.

9.2 Bydd aelodau'n cael hawlio treulio teithio rhesymol yn ôl gweithdrefnau a pholisïau WLGA. Rhaid talu a hawlio treuliau o'r fath yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

10.0 ADOLYGU

10.1 Bydd ETS Cymru yn adolygu ac yn diweddarau'r amodau hyn yn rheolaidd i adlewyrchu newidiadau yn ei drefniadau neu yng nghyd-destun ei waith.

11.0 HANES

11.1 Sefydlwyd Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru ym 1994 trwy Asiantaeth Ieuenctid Cymru yn sgîl memorandwm dealltwriaeth rhwng y Cydbwyllgor Negodi dros Weithwyr Ieuenctid a Chymuned, y Swyddfa Gymreig ac Asiantaeth Ieuenctid Cymru. Trosglwyddodd y memorandwm hwnnw gyfrifoldeb am gymeradwyo hyfforddiant sylfaenol sy'n arwain at statws gweithiwr ieuenctid a chymuned cymwysedig o Loegr (Asiantaeth Genedlaethol yr Ifainc) i Gymru. Ar ben hynny, fe roes i'r pwyllgor hawl i achredu cyrsiau 'hyfforddiant mewn swydd' a pholisïau datblygu staff.

11.2 Ar ôl i Asiantaeth Ieuenctid Cymru ddod yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 1^{af} Ionawr 2006, aeth ETS Cymru yn gylch ymgynghorol yn sgîl diwygio memorandwm y ddealltwriaeth gyda'r Cydbwyllgor Negodi. Ei rôl trwy hynny fyddai cynghori'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Medrau am elfennau y byddai'r Cydbwyllgor Negodi yn eu gwerthfawrogi mewn rhaglenni hyfforddi am y bydden nhw'n arwain at statws gweithiwr ieuenctid a chymuned cymwysedig. Pe bai'n fodlon, fe fyddai'r cydbwyllgor yn penderfynu cydnabod rhai rhaglenni. Roedd gwaith chwarae a datblygu cymuned yn rhan o'r gorchwyl bennodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y cylch ymgynghorol hefyd (er nad oedden nhw'n rhan o'i chytundeb â'r Cydbwyllgor Negodi). Mae amodau aelodaeth o'r cylch wedi'u llunio i adlewyrchu cynrychiolaeth y sectorau hynny.

- 11.3 Sefydlwyd ETS Cymru yn gorff annibynnol yn 2009 fel y byddai'n gyfrifol am benderfynu ar gymeradwyo a chydabod rhaglenni. Mae'r Cydbwyllgor Negodi a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGAL) wedi cytuno ar femorandwm dealltwriaeth ynglŷn â rhoi canolfan i'r pwyllgor a'i waith.

Mai 2017